*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1044

# Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

## RHAN 3

## CYFNODAU HYSBYSU: DIWYGIO ADDASIADAU A WNAED GAN ATODLEN 29

*TENANTIAETHAU DIOGEL*

**Diwygio addasiadau a wnaed i adran 83 o Ddeddf Tai 1985**

**6.**—(1) Mae paragraff 3 o Atodlen 29 (hysbysiadau am achosion adennill meddiant mewn perthynas â thenantiaethau diogel) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (b), hepgorer ", in relation to a dwelling-house in England,".

(3) ym mharagraff (c)—

(a) yn is-adran (4B)(a)(ii), a fewnosodir gan yr addasiad, yn lle ", three months after the date of service of the notice," rhodder

"—

(aa) four weeks after the date of service of the notice where Ground 2A in Schedule 2 is specified without any other ground, and

(ab) where sub-paragraph (aa) does not apply, six months after the date of service of the notice,".

**Atal darpariaeth sy'n ymwneud ag adran 83 o Ddeddf Tai 1985 dros dro pan roddir hysbysiad ar seiliau ymddygiad gwrthgymdeithasol**

**7.** Mae paragraff 3 o Atodlen 29 (estyn cyfnodau hysbysu mewn perthynas â thenantiaethau diogel) wedi ei atal dros dro o ran Cymru at ddibenion hysbysiad o dan adran 83 o Ddeddf Tai 1985(**1**) sy'n pennu Sail 2 yn Atodlen 2 i'r Ddeddf honno (sail yn ôl disgresiwn ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol), pa un ai gyda seiliau eraill neb hebddynt.

**Atal darpariaethau sy'n ymwneud ag adran 83ZA o Ddeddf Tai 1985 dros dro pan roddir hysbysiad ar seiliau ymddygiad gwrthgymdeithasol**

**8.** Mae paragraff 4 o Atodlen 29 (hysbysiadau am achosion adennill meddiant ar sail absoliwt am ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn perthynas â thenantiaethau diogel) wedi ei atal dros dro o ran Cymru.

(**1**) 1985 p. 68.